

Chwarae Cymru Play Wales

# Yr hyn mae plant yn ei ddweud am chwarae yng Nghymru: 2025

**‘Dwi’n teimlo’n *anhygoel* wrth chwarae, dim i boeni amdano.’**

Chwarae Cymru
Play Wales

**Awdur: Dr David Dallimore**

ISBN: 978-1-914361-29-6

© Chwarae Cymru

Cyhoeddwyd gan: Chwarae Cymru, Tŷ Parc, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd CF10 3AF

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull gan unrhyw berson heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr.

www.chwarae.cymru

# Cynnwys

Cyflwyniad 5

- Cefndir 5
- Yr ymchwil 6

Amser i chwarae 8

- Pa mor aml fydd plant yn chwarae? 8
- Yw plant yn cael digon o amser i chwarae? 10
- Yr hyn mae plant yn ei ddweud am yr amser sydd ganddynt i chwarae 11

Lle i chwarae 12

- Ble mae plant yn chwarae 12
- Pa mor dda yw mannau chwarae? 16
- Yr hyn mae plant yn ei ddweud am y mannau sydd ganddynt i chwarae 18

Caniatâd i chwarae 19

- Teimlo'n ddiogel 19
- Agweddau oedolion 20
- Cael caniatâd i fynd allan 21
- Cyrraedd i fannau chwarae 23
- Yr hyn mae plant yn ei ddweud am y caniatâd y maent ei angen i chwarae 24

Bodlonrwydd cyffredinol 25

- Sgorau bodlonrwydd chwarae 25

Casgliadau 27

Atodiad 1: Methodoleg 28

Atodiad 2: Cerdyn Adroddiad 'Active Healthy Kids' 30

Atodiad 3: Beth sy'n dda a beth sydd ddim cystal am chwarae yn eich ardal? 32

Ffeithlun 34

Cyfeiriadau 35

## Diolchiadau

Diolch o galon unwaith eto i bob un o'n partneriaid mewn awdurdodau lleol a rannodd ddata eu *Harolwg Bodlonrwydd Chwarae*. Mae'r arolwg bellach yn cael ei ddefnyddio'n gyson gan y mwyafrif o awdurdodau lleol yng Nghymru fel rhan o'u Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae. Mae rhannu data'r arolwg yn ein galluogi i greu cofnod dibynadwy o leisiau plant ac arddegwyr o bob cwr o'r wlad a, gydag amser, mae'n darparu set ddata sy'n gwbl unigryw y gallwn ei defnyddio i ddeall ac egluro'n well y rhwystrau i greu amgylchedd chwarae-gyfeillgar.

Diolch hefyd i'r Dr Michaela James a'r Dr Hope Jones am eu gwaith yn dadansoddi'r data ansoddol o'r *Arolwg Bodlonrwydd Chwarae* ac i Alara Ridout, ein myfyriwr ar leoliad o Brifysgol Caerdydd, a gynorthwyodd gyda glanhau'r data.

## Awdur

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan y Dr David Dallimore.

Mae David yn gynghorydd polisi annibynnol ac ymgynghorydd ymchwil sy'n arbenigo mewn chwarae a gofal plant y blynyddoedd cynnar. Gweithiodd yn flaenorol ym Mhrifysgol Bangor ar brosiectau ymchwil, yn cynnwys fel Cymrawd WISERD oedd yn edrych ar gymdeithas sifil a gwirfoddoli yn ogystal ag ymchwilio a chyhoeddi ar ofal cymdeithasol, iechyd a phlentyndod cynnar. Mae'n gynghorydd i Lywodraeth Cymru ac yn Gymrawd yng Ngwasanaeth Ymchwil y Senedd.

Dyma'r trydydd dadansoddiad o ddata'r *Arolwg Bodlonrwydd Chwarae* y mae David wedi ei gyflawni ar ran Chwarae Cymru.

# Cyflwyniad

**Ers ei dechreuad yn 1998, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull seiliedig ar hawliau tuag at bolisi sydd â wnelo plant. Yn 2002, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei *Pholisi Chwarae*, y polisi chwarae cenedlaethol cyntaf yn y byd. Seiliwyd y polisi ar yr egwyddor bod gan bob plentyn hawl i chwarae. Mae'n adlewyrchu ymrwymiad y llywodraeth i sicrhau bod plant a'u hanghenion yn ganolog i lunio polisi a bod darpariaeth ar gael i gyflawni anghenion chwarae plant.**

Trwy werthfawrogi a chynyddu ansawdd cyfleoedd, y gobaith yw y caiff plant ac arddegwyr fwy o amser, lle a chaniatâd i chwarae. Mae cael cyfleoedd i chwarae'n cefnogi lles uniongyrchol yn ogystal â chyfrannu at fuddiannau iechyd, cymdeithasol, meddyliol ac emosiynol.

Mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae, fel y'i hadnabyddir bellach, yn rhan o agenda Llywodraeth Cymru yn erbyn tlodi sy'n cydnabod y gall plant ac arddegwyr ddioddef o dlodi profiadau, cyfleoedd ac uchelgais. Gall y math hwn o dlodi effeithio ar blant o bob cefndir cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ar draws Cymru.

Wrth fesur digonolrwydd chwarae, mae'n bwysig gwerthfawrogi safbwyntiau plant ac arddegwyr ar yr hyn sy'n dda a'r hyn sydd ddim cystal am eu profiadau o chwarae yn eu cymdogaethau. Mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol yn gwneud hyn trwy siarad gyda nhw'n uniongyrchol a thrwy gynnal arolygon. Gellir defnyddio'r rhain i ddeall y rhwystrau i greu amgylchedd chwarae-gyfeillgar. Mae gan y canlyniadau rôl bwysig wrth ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn i awdurdodau lleol ddynodi bylchau mewn darpariaeth a chefnogi datblygiad cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau hyn.

Trwy goladu data arolygon digonolrwydd chwarae gan awdurdodau lleol ers 2019, mae Chwarae Cymru wedi bod yn ymchwilio i brofiadau amrywiol plant ac arddegwyr o chwarae ar draws y wlad. Wedi tri chylch o ddadansoddi, gallwn bellach ddangos gyda chryn sicrwydd sut y mae'r profiadau hynny'n esblygu dros amser ac mewn ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau.

Canfu ein hadroddiadau blaenorol yn 2019 a 2022 pan ganiateir iddynt fynd allan, a phan allant chwarae yn y mannau yr hoffent, bod y mwyafrif o blant ac arddegwyr yn hapus gyda'r dewis o fannau o ansawdd da a'u bod yn fodlon, ar y cyfan, gyda'u cyfleoedd i chwarae. Er hynny, dengys nifer o ffactorau, tra bo chwarae'n rhan hanfodol o dyfu i fyny, nad yw'n cael ei brofi'n gyfartal gan bawb. Mae cyfyngiadau ar amser, lle a chaniatâd yn llesteirio'r cyfleoedd i rai plant ac arddegwyr brofi bodlonrwydd yn eu cyfleoedd i chwarae.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn cyflwyno dadansoddiad o ymatebion arolygon a gasglwyd yn 2024/25 oddi wrth 7,924 o blant ac arddegwyr ble maent yn sôn wrthym am yr hyn sy'n dda a beth sydd ddim cystal am y cyfleoedd i chwarae yn eu hardal leol a pha mor fodlon ydyn nhw gyda phryd, sut a ble y gallant chwarae.

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan y Dr David Dallimore, cynghorydd polisi annibynnol ac ymgynghorydd ymchwil sy'n arbenigo mewn chwarae a gofal plant y blynyddoedd cynnar. Mae'r adroddiad wedi ei gefnogi gan ddadansoddiad ansoddol a gynhaliwyd gan y Dr Michaela James a'r Dr Hope Jones o Brifysgol Abertawe (gweler Atodiad 3 am fwy o fanylion). Mae'r ymchwilwyr wedi dadansoddi dau gwestiwn o ddata *Arolygon Bodlonrwydd Chwarae* yr awdurdodau lleol:

- Beth sy'n dda am chwarae yn dy ardal?
- Beth sydd ddim cystal am chwarae yn dy ardal?

## Cefndir

Mae Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, gyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant. Cychwynnwyd rhan gyntaf y ddyletswydd – y ddyletswydd i asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae – yn 2012, gyda'r amod bod rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno Asesiad Digonolrwydd Chwarae (ADCh) i Lywodraeth Cymru bob tair blynedd. Mae hyn yn golygu erbyn 2025, bod pump ADCh wedi'u cwblhau a'u cyflwyno gan awdurdodau lleol yng Nghymru.


Cychwynnwyd ail ran y ddyletswydd – y ddyletswydd i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol – yn 2013 ac mae'n eistedd yn arddull seiliedig ar hawliau cyffredinol Llywodraeth Cymru tuag at ddeddfu ar ran plant. Mae'r arddull hwn wedi'i gorffori yng nghyfraith o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae arddull seiliedig ar hawliau'n caniatáu inni werthfawrogi gwerth cynhenid chwarae fel hawl yn ogystal â'i werth cyfryngol ar gyfer mynd i'r afael â materion polisi eraill. Mae hefyd yn cyflwyno datganiad clir am sut y mae cymdeithas yng Nghymru'n ystyried plant a phlentyndod.

## Yr ymchwil

Ynghyd â chanllawiau statudol[1] ar gyfer awdurdodau lleol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pecyn cymorth a thempled hefyd i arwain y wybodaeth sydd ei angen yn yr ADCh. Datblygwyd y rhain mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Chwarae Cymru, y rhwydwaith o swyddogion digonolrwydd chwarae awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Diweddarwyd y pecyn cymorth a'r templed yn 2015, 2019, 2022 a'i adfywio a'i ddiweddaru ar gyfer ADCh 2025. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys *Arolwg Bodlonrwydd Chwarae* safonol sy'n anelu i gasglu barn plant ac arddegwyr am y cyfleoedd i chwarae yn eu hardal leol. Darparwyd cymorth i awdurdodau lleol ar ddefnyddio'r arolwg gan Chwarae Cymru yn 2021-22 trwy gyfres o weithdai a thaflen wybodaeth, *Yr Arolwg Bodlonrwydd Chwarae: canllaw i'w ddefnyddio'n lleol.*[2]

Yn 2025, gofynnodd Chwarae Cymru i awdurdodau lleol yng Nghymru rannu canlyniadau o'u *Harolygon Bodlonrwydd Chwarae*. O'r 22 awdurdod lleol, ymatebodd 19 a llwyddodd 16 i ddarparu data dienw ar ffurf y gellid ei ddefnyddio ar gyfer yr adroddiad hwn (o'i gymharu â 13 yn 2019 ac 16 yn 2022). Er hynny, gan na ddefnyddiodd pob awdurdod lleol yr *Arolwg Bodlonrwydd Chwarae* safonol yn ei gyfanrwydd, mae ymatebion i rai cwestiynau yn cynnwys canlyniadau o lai o ardaloedd.

Ar draws y mwyafrif o gwestiynau a ofynnir yn yr *Arolwg Bodlonrwydd Chwarae*, rydym wedi cyflwyno graffiau a siartiau sy'n rhannu'r ymatebion i gwestiynau'r arolwg ac yn ôl nodweddion yn



**Wedi darparu data y gellid ei ddefnyddio**

cynnwys rhywedd, anabledd, ethnigrwydd, oedran a daearyddiaeth. Mae proffil o ymatebwyr yr arolwg wedi ei gynnwys yn Atodiad 1.

Tra bo rhai cyfyngiadau i'r data (gweler Atodiad 1) mae'n darparu casgliad unigryw o wybodaeth. Hyderwn y bydd yn ddefnyddiol ac o ddiddordeb i lunwyr polisïau, pobl sy'n gyfrifol am sicrhau digonolrwydd chwarae mewn cymdogaethau lleol, gweithwyr chwarae a rhieni.

Mae chwarae'n ganolog i iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant. I'r plant a'r arddegwyr, chwarae a chymdeithasu gyda'i gilydd yw un o agweddau pwysicaf eu bywydau. Maent yn gwerthfawrogi cael amser, rhyddid a mannau o safon i chwarae. Pan ofynnir beth sy'n bwysig iddynt, mae plant ac arddegwyr yn cyfeirio'n gyson at chwarae ac ymgasglu gyda'u ffrindiau. Pan maent yn chwarae, mae plant ac arddegwyr yn cyfrannu at eu lles uniongyrchol ac at eu datblygiad eu hunain.

Er mwyn i blant gael digon o gyfleoedd i chwarae, maent angen:

- amser i chwarae
- lle i chwarae
- cydnabyddiaeth gan oedolion bod hyn yn hawl i bob plentyn.

Felly, mae chwarae plant yn dibynnu ar gael lle, amser a chaniatâd i chwarae, a gall digonolrwydd cyfleoedd i chwarae ond bodoli ble caiff y tair elfen hyn eu cyflwyno'n gadarnhaol. Dyluniwyd y cwestiynau yn yr arolwg i archwilio'r themâu hyn ac, o'r herwydd, mae'r tair elfen yn ffurfio'r strwythur ar gyfer ein dadansoddiad a'r adroddiad hwn.



# Amser i chwarae

Mae plant angen digon o amser ar gyfer chwarae strwythuredig a distrwythur hefyd, gyda phwyslais cryf ar chwarae egnïol, y tu allan i gefnogi eu hiechyd corfforol, eu lles meddyliol a'u datblygiad cyffredinol, a chwarae, yn aml, yw'r ffordd y maent am dreulio eu hamser rhydd.[3] Mae plant yn cysylltu amser rhydd gyda rhyddid, annibyniaeth a dewis. Fodd bynnag, mae chwarae o'r natur yma'n aml yn gyfyngedig ac yn gynyddol werthfawr.

Mae'r *Arolwg Bodlonrwydd Chwarae* yn agor trwy ofyn i blant ac arddegwyr faint o amser yr oeddent yn ei dreulio'n chwarae allan yn eu cymdogaethau, ac yna gofyn a oedd yr amser oedd ganddynt i chwarae'n ddigonol.

## Pa mor aml fydd plant yn chwarae?

**Mae dros 70% o blant ac arddegwyr yn chwarae'r tu allan y mwyafrif o ddyddiau, neu o leiaf ychydig ddyddiau bob wythnos.**


Wrth ymateb i'r cwestiwn, Pa mor aml wyt ti'n mynd allan i chwarae neu yn cymdeithasu gyda ffrindiau?, dywedodd 37% o blant ac arddegwyr eu bod yn mynd allan i chwarae neu gymdeithasu gyda ffrindiau y rhan fwyaf o ddyddiau. Mae 35% arall yn chwarae'r tu allan ychydig ddyddiau'r wythnos. Fodd bynnag, mae 28% sydd fyth, neu bron byth, yn chwarae'r tu allan.

Yn gyffredinol, ac ar draws y mwyafrif o'r nodweddion sampl, dengys y data bod plant ac arddegwyr yn chwarae'r tu allan ychydig yn fwy nag oeddent yn 2022. Efallai bod hyn yn gysylltiedig â chyfyngiadau COVID-19, oherwydd o'u cymharu â 2019, mae plant ac arddegwyr yn dal i chwarae allan yn llai rheolaidd yn 2025 nag oeddent yn 2019. Fodd bynnag, ceir tueddiadau tymor hirach[4] sy'n dangos bod llai o amser plant yn cael ei neilltuo ar gyfer chwarae, o blaid gweithgareddau addysgol neu rai wedi'u strwythuro.

Canfu'r dadansoddiad o ddata ansoddol o'r *Arolwg Bodlonrwydd Chwarae* bod rhai plant hŷn ac arddegwyr yn dweud bod pwysau academaidd, gwaith cartref neu amser sgrîn yn gadael fawr ddim amser ar gyfer chwarae'r tu allan neu gymdeithasu gyda ffrindiau.[5]

**Mae plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn dweud eu bod yn chwarae neu'n cymdeithasu'r tu allan ychydig yn fwy na'r rheini mewn ardaloedd trefol.**






**Ffigwr 1: Amser a dreulir yn chwarae'r tu allan (6,785 o ymatebion)**

Gwelir gwahaniaeth bychan ond cyson (2 i 3%), ble fo bechgyn yn dweud eu bod yn chwarae'r tu allan fwy na merched. Ar draws yr holl arolygon ers 2019, gallwn weld bod mwy o ferched nac o fechgyn yn dweud hefyd eu bod byth, neu bron byth yn chwarae'r tu allan.

**Mae 37% o blant anabl fyth, neu bron byth yn chwarae'r tu allan.**

Yn gyson hefyd ar draws yr arolygon yw'r canfyddiad fod plant iau (dan 11 oed) yn chwarae'r tu allan llawer mwy na phlant hŷn ac arddegwyr (11 oed a throsodd). Mewn dadansoddiad atchwel llinol syml, canfuwyd mai oedran oedd yr elfen ddarogan gryfaf o gyfanswm yr amser y byddai plant ac arddegwyr yn chwarae'r tu allan. Yn ddiddorol iawn, roedd yr iaith y byddai'r plant yn dewis ei siarad yn broffwydol hefyd o dreulio mwy o amser yn chwarae'r tu allan, gyda phlant oedd yn siarad Cymraeg yn fwy tebygol o chwarae'r tu allan.

Mae cyfran uwch o blant anabl yn dweud eu bod bron byth, neu fyth yn chwarae'r tu allan. Fe wnaethom ganfod bod, os oes gan blentyn anabledd neu beidio, yn nodwedd sydd ag effaith broffwydol gryf ar yr amser y bydd plant yn ei dreulio'n chwarae'r tu allan.

Fel y canfuwyd yn 2022, gwelir gwahaniaeth rhwng plant ac arddegwyr sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd ble roeddent yn fwy tebygol o gael rhyddid i chwarae'r tu allan y rhan fwyaf o ddyddiau, ond hefyd yn fwy tebygol na rhai mewn ardaloedd ble mae llai o amddifadedd i beidio chwarae'r tu allan o gwbl. Mae hyn yn gyson gydag ymchwil arall[6] wnaeth ganfod bod plant yn llai tebygol o chwarae'r tu allan yn annibynnol os ydynt o gartrefi mwy cyfoethog, ac os nad oes ganddynt rwydweithiau teuluol gerllaw.

Er nad oedd gwahaniaeth sylweddol yn yr amser a dreuliwyd yn chwarae'r tu allan rhwng plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol, roedd gwahaniaeth rhwng ymatebion ar draws awdurdodau lleol. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, dim ond 18% o blant ac arddegwyr ddywedodd eu bod yn chwarae'r

tu allan y rhan fwyaf o ddyddiau. Mae hyn o'i gymharu â 55% ym Mhen-y-bont ar Ogwr a thros 40% yn Sir Fynwy, Caerdydd, Wrecsam, Rhondda Cynon Taf a Chaerffili. Mae hyn yn anghyson gyda data 2022 wnaeth ganfod, er enghraifft, bod plant yng Nghaerdydd yn llai tebygol o lawer i chwarae'r tu allan. Efallai bod hyn oherwydd bod dulliau ar gyfer recriwtio cyfranogwyr sampl ar gyfer yr arolwg yn amrywio gyda phob ADCh.


## Yw plant yn cael digon o amser i chwarae?

**Mae 24% o blant ac arddegwyr yn dweud nad oes ganddynt ddigon o amser i chwarae ac yr hoffent fwy o amser.**

Mae ymchwil o ardaloedd eraill o'r DU[7] yn awgrymu efallai nad yw llawer o blant yn derbyn digon o amser i chwarae, yn enwedig chwarae distrwythur y tu allan, gyda honiadau bod amser a dreulir yn chwarae'r tu allan wedi gostwng 50% o fewn cenhedlaeth. Yn aml, mae dyddiau plant wedi eu llenwi gydag ysgol, gwaith cartref, a gweithgareddau allgyrsiol strwythuredig, tra bod amser sgrîn yn cyfyngu ymhellach ar amser ar gyfer chwarae'r tu allan.

Yn debyg i'r canfyddiadau yn 2022, fe wnaethom ganfod bod 76% o blant ac arddegwyr yng Nghymru'n dweud bod ganddynt lawer, neu ddigon o amser i chwarae, tra bo 24% yn dweud nad oes ganddynt ddigon o amser neu yr hoffent fwy o amser i chwarae.

Roedd bechgyn, plant iau a phlant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o fod yn fodlon gyda chyfanswm yr amser oedd ganddynt i chwarae – er bod y gwahaniaethau'n fychan iawn. Y lleiaf bodlon oedd plant anabl, a ddywedodd eu bod angen llawer mwy o amser i chwarae neu gymdeithasu gyda ffrindiau. Yn yr ardaloedd y mae gennym ddata ar eu cyfer, dywedodd mwy o ymatebwyr yn Sir y Fflint, Bro Morgannwg a Chasnewydd eu bod angen llawer mwy o amser i chwarae, tra bo plant yng Nghaerffili a Rhondda Cynon Taf yn fwyaf tebygol o ddweud bod ganddynt ddigon o amser i chwarae.




**Ffigwr 2: Amser i chwarae (6,785 o ymatebion)**

## Yr hyn mae plant yn ei ddweud am yr amser sydd ganddynt i chwarae

Gellir crynhoi fel a ganlyn yr hyn ddywedodd plant ac arddegwyr wrthym am yr hyn sy'n dda a beth sydd ddim cystal am yr amser sydd ganddynt i chwarae neu gymdeithasu:

### Yr hyn sy'n dda:

- Mae plant yn mwynhau **treulio amser gyda ffrindiau** mewn parciau neu gaeau ysgol lleol.
- Mae gan rai **fannau tawel, heb ormod o bobl** i chwarae.
- Cyfleoedd i **gymysgu chwarae gyda diddordebau**.

### Beth sydd ddim cystal:

- Mae **amserlenni prysur** gyda gwaith cartref, clybiau neu chwarae gemau cyfrifiadurol yn lleihau amser chwarae.
- Mae'r **tywydd** (glaw, mwd, dim cysgod) yn cyfyngu ar chwarae'r tu allan.
- Weithiau 'does **neb i chwarae gyda nhw'n** lleol.
- Mae **amser teithio hir neu lwybrau anniogel** i ardaloedd chwarae'n lleihau amser defnyddiol.



'Dwi angen mwy o amser i chwarae gyda fy ffrindiau oherwydd fy mod i'n byw braidd yn bell i ffwrdd oddi wrthyn nhw.'

**10 oed o Sir y Fflint**

'Dwi'n meddwl y dylwn i gael mwy o amser i chwarae'r tu allan, o leiaf wrth fy nhŷ.'

**Dan 11 oed o Wrecsam**

'Dwi'n credu fy mod i angen ychydig yn fwy o amser i chwarae'r tu allan gyda fy *besties* a ffrindiau!'

**10 oed o Wrecsam**

# Lle i chwarae

Mae mynediad i ystod amrywiol o leoedd i chwarae, yn cynnwys meysydd chwarae traddodiadol, llecynnau naturiol, ac amgylcheddau cynhwysol, yn darparu amgylcheddau cyfoethog ac ysgogol. Mae amgylchedd chware cyfoethog yn anhepgor er mwyn i blant brofi plentyndod iach a hapus. Mae hyn yn cyfrannu hefyd at ddatblygiad cyffredinol, gan helpu plant i dyfu'n unigolion iach, cyflawn a chydnerth.

Mae amgylchedd chwarae cyfoethog yn cysylltu gyda'r deilliannau o chwarae ei hun, yn cynnwys:

- cyfoethogi datblygiad corfforol
- rhoi hwb i ddatblygiad meddyliol
- meithrin twf cymdeithasol ac emosiynol
- cysylltu gyda natur a'r amgylchedd
- annog annibyniaeth a chymryd risg.


Mae'n bwysig hefyd, yng nghyd-destun hawl plant i chwarae, eu bod yn cael dewis o leoedd sy'n ateb eu dewisiadau a'u hanghenion chwarae.

## Ble mae plant yn chwarae

**Mae 72% o blant ac arddegwyr yn fodlon gyda'r ystod o ofodau ble gallant chwarae neu gymdeithasu.**

Mae'r *Arolwg Bodlonrwydd Chwarae* yn gofyn i blant ac arddegwyr am y mathau o leoedd ble byddant yn chwarae neu'n cymdeithasu (gweler Ffigwr 3). 'Does dim syndod bod ymatebwyr o bob oed fel arfer yn chwarae neu'n cymdeithasu yn eu tai eu hunain neu dai ffrindiau, ond i blant iau, fe wnaethom ganfod yn gyson bod mannau strwythuredig – dan do yn ogystal â'r tu allan – yn chwarae rôl llawer mwy.

I blant dan 11 oed, mae ardaloedd chwarae gyda siglenni, llithrennau ac offer arall i chwarae arno yn bwysig iawn. O gofio bod y rhain, gan amlaf, yn cael eu darparu a'u cynnal a'u cadw gan awdurdodau lleol, ni ddylid tanbrisio eu pwysigrwydd wrth gyfrannu at ddigonolrwydd chwarae. Daeth y dadansoddiad ansoddol[8] cysylltiedig i'r casgliad bod offer chwarae, mewn nifer o ardaloedd, yn cael ei ddisgrifio fel bod yn hen, wedi torri, neu'n anaddas ar gyfer plant iau.




Ffigwr 3: Y mannau ble bydd plant yn chwarae (5,586 o ymatebion)

Galwodd llawer am fuddsoddi mewn mannau ar gyfer plant hŷn ac arddegwyr, yn enwedig yn Ynys Môn, Sir Ddinbych a Chaerffili.

I blant hŷn ac arddegwyr, roedd strydoedd, tir agored, coedwigoedd lleol a mannau anffurfiol eraill yn bwysicach. Roedd y gyfran oedd yn ymweld â darpariaeth ffurfiol – fel clybiau ieuenctid – yn dal i ostwng. Yn 2019, dywedodd dros 10% o blant ac arddegwyr eu bod yn mynychu clybiau ieuenctid. Yn 2022, roedd hyn wedi disgyn i 7.8% ac ymhellach i 7.6% yn 2025. Efallai nad yw hyn yn syndod oherwydd, yn ôl data Llywodraeth Cymru a adroddwyd gan yr YMCA yn 2025, roedd 62% yn llai o ganolfannau ieuenctid yn 2024 nag yn 2010-11.[9]

Trwy edrych ar yr ystod o fannau dan do ac awyr agored y dywedodd plant ac arddegwyr yr oeddent yn chwarae neu'n cymdeithasu ynddynt dros y tri chylch ADCh diwethaf, gallwn ddynodi tueddiad tuag at yr awyr agored ac oddi wrth ofodau dan do (gweler Ffigwr 4). Tra gellid ystyried hwn yn ganfyddiad cadarnhaol, caiff ei egluro'n rhannol gan ddata sy'n arddangos troi cefn ar ofodau dan do 'wedi eu trefnu' fel canolfannau chwarae, clybiau ar ôl ysgol, clybiau ieuenctid a darpariaeth gymunedol arall dan do, sydd felly'n dynodi efallai bod gan blant **lai** o ddewis o ofod. Cafodd hyn ei amlygu gan blant hŷn ac arddegwyr a ddywedodd bod diffyg lleoedd iddynt gymdeithasu dan do, yn enwedig yn y gaeaf. Soniodd dros 200 o ymatebion yn benodol bod ganddynt unman i fynd pan oedd hi'n glawio.

'Fydda' i ddim yn mynd allan i chwarae os yw'n glawio neu'n oer. Fydda' i ddim yn mynd allan i chwarae a chymdeithasu gan ei bod yn rhy dywyll; rhy fwdlyd yn y gaeaf.'


**Merch 9 oed o Sir Fynwy**

'Mae angen mwy o weithgareddau dan do yn ystod y gaeaf pan allai ddim chwarae'r tu allan oherwydd ei bod yn dywyll y tu allan.'

**Merch 10 oed o Sir Ddinbych**

'Os yw hi'n glawio neu ar y penwythnos 'does unman sych, diogel i gymdeithasu gyda dy ffrindiau.'

**Bachgen 14 oed o Fro Morgannwg**




Ffigwr 4: Tueddiadau mewn chwarae dan do a'r tu allan o 2019 i 2025

Gwelir y tueddiad hwn hefyd pan fyddwn yn cyfrifo'r nifer cyfartalog o wahanol ofodau y dynododd plant ac arddegwyr fel mannau ble byddant yn chwarae. Fe wnaethom ganfod fod bechgyn yn defnyddio amrywiaeth ehangach o fannau chwarae na merched, fel y mae plant iau ac yn enwedig y rheini sy'n byw mewn ardaloedd mwy amddifad. Roedd llai o wahaniaeth rhwng plant anabl a phlant Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol na'r hyn a ganfuwyd mewn arolygon blaenorol.

Yn ôl awdurdod lleol, mae'r nifer cyfartalog o fannau chwarae a ddynodwyd yn amrywio'n fawr ar draws Cymru. Y rheini ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Abertawe, Caerffili a Rhondda Cynon Taf ddynododd y nifer fwyaf o fannau chwarae, tra mai Sir y Fflint, Merthyr Tudful a Bro Morgannwg ddynododd y lleiaf.

Gofynnwyd i'r plant a'r arddegwyr os ydynt yn gallu chwarae yn yr holl fannau yr hoffent chwarae. O'r plant ac arddegwyr a arolygwyd, dywedodd 32% y gallent chwarae ym mhobman yr hoffent (24% yn 2019 a 30% yn 2022) a dywedodd 40% arall (33% yn 2019 a 38% yn 2022) y gallent chwarae yn rhai ohonynt, gan ddynodi cynnydd cyson yn eu rhyddid canfyddedig i chwarae ble y mynnant.

'Doedd fawr ddim newid yn y gyfran ddywedodd eu bod yn gyfyngedig iawn ac y gallent chwarae mewn fawr ddim o leoedd (8% yn 2019, 12% yn 2022 ac 8% yn 2025) neu'r rheini ddywedodd mai dim ond ychydig fannau oedd ar gael iddyn nhw (21% yn 2019, 20% yn 2022 ac 20% yn 2025).

Fel y canfuwyd mewn arolygon blaenorol, 'does fawr ddim gwahaniaeth ar draws gwahanol nodweddion, er enghraifft oed, rhywedd, lleoliad. 'Does fawr ddim gwahaniaeth o ran bodlonrwydd gyda'r dewis o fannau chwarae, er i'r arolwg ddangos eto bod plant hŷn ac arddegwyr yn teimlo'n llai cyfyngedig a bod ganddynt fwy o ddewis. Mae plant anabl (a'u rhieni) yn dal i deimlo bod eu dewisiadau'n llawer mwy cyfyngedig, gyda 13% yn dweud y gallent brin chwarae'n unman.

'Mewn gwirionedd, 'does gan fy mab ddim byd addas gan ei fod mewn cadair olwyn, fe fyddwn ni'n mynd i sesiwn ADY [Anghenion Dysgu Ychwanegol] ble mae gormod yn rhedeg o gwmpas. Nid yw'n gallu cerdded llawer gan ei fod newydd gael trawsblaniad aren. Allwn ni ddim ei newid yn ddiogel mewn ystafelloedd newid gan eu bod ond yn darparu ar gyfer babanod. 'Does dim byd addas yn yr ardal hon na'r ardaloedd lleol, ry'n ni wedi gyrru cyn belled â Merthyr.'

**Rhiant bachgen 7 oed o Rondda Cynon Taf**

'Unman sy'n gyfeillgar i'r anabl – 'does dim offer cyfeillgar i'r anabl mewn parciau felly alla' i ddim chwarae.'

**Bachgen 10 oed o Flaenau Gwent**

''Does unman y galla' i chwarae neu gymdeithasu'n ddiogel ar fy mhen fu hun gan fy mod i'n defnyddio ffrâm i fy helpu i gerdded a 'does dim byd ar gyfer pobl anabl yn unman yn agos.'


**Merch 13 oed o Gasnewydd**

'Dim ar gyfer rhywun gyda fy anghenion i. Unman y galla' i fynd iddo'n annibynnol. Rwyf wedi cael fy nhaflu allan o lefydd oherwydd fy Tourettes.'

**Bachgen 14 oed o Gaerdydd**



## Wyt ti'n gallu chwarae ym mhob lle yr hoffet ti chwarae?




**Ffigwr 5: Rhyddid i chwarae (7,097 o ymatebion)**

Canfu'r dadansoddiad ansoddol o ddata'r *Arolwg Bodlonrwydd Chwarae*[10] bod llawer o blant ac arddegwyr yn mwynhau cael mynediad i barciau, caeau ac amgylcheddau naturiol sy'n ddiogel, hwyl ac yn agos i gartref. Mae'r gofodau hyn yn caniatáu ar gyfer chwarae, gweithgarwch corfforol a rhyngweithio cymdeithasol. Cafodd awdurdodau lleol fel Sir y Fflint, Abertawe a Sir Ddinbych eu canmol yn aml am eu parciau hygyrch a'u hamgylchoedd naturiol.

'Mae llawer o barciau yn agos i mi ac mae llawer o gaeau pêl-droed a pharciau a mwy o gaeau felly rwy'n cael llawer o hwyl allan.'

**Bachgen dan 11 oed o Abertawe**

'Mae fy ardal yn dda ar gyfer cymdeithasu oherwydd mae llawer o ardaloedd diogel yn fy ardal fel siopau, parciau a hyd yn oed gaffi.'

**13 oed o Sir y Fflint**

'Mae'n wych, parc newydd, parc gwell, a pharc sglefrfyrddio a chae rygbi. Llawer o siglenni a llawer o natur, hwyaid ar y llyn a chanol gwych.'

**Bachgen dan 11 oed o Sir Ddinbych**

'Fy mharc lleol. Mae llawer o le a llwyth o eitemau hwyliog yno, mae hefyd yn agos iawn i fy nhŷ felly fe alla' i fynd yno'n gyflym a phryd bynnag dwi eisiau. Hefyd, mae parc sglefrfyrddio'n eithaf agos i fy nhŷ, felly fe alla' i fynd yno hefyd.'

**10 oed o Sir y Fflint**

Mewn llawer o ardaloedd, disgrifiwyd bod offer chwarae yn hen, wedi torri, neu ddim ond yn addas ar gyfer plant iau. Galwodd llawer am fuddsoddi mewn gofodau ar gyfer plant hŷn ac arddegwyr, yn enwedig yn Ynys Môn, Sir Ddinbych a Chaerffili.[11]

‘Mae’r ardal chwarae’n dda i ddim a ’does unlle i blant hŷn gymdeithasu.’

**Bachgen 13 oed o Ynys Môn**

‘Mae 99% ohono ar gyfer plant 3 neu 6 oed i chwarae yno ac efallai ychwanegu rhagor o bethau i blant hŷn chwarae arnyn nhw neu i gymdeithasu.’

**11 oed o Sir y Fflint**

‘Weithiau, fe allai fod yn anodd mynd i rai o’r ardaloedd ar gyfer cymdeithasu oherwydd bod mwd neu goed wedi cwympo, yn y parc mae mwy o offer chwarae ar gyfer plant iau a bron ddim byd ar gyfer plant sydd ychydig yn hŷn.’

**Merch 13 oed o Sir y Fflint**

‘Oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol mae ein hoffer yn cael ei dorri, ei losgi a’i fandaleiddio ac yna ddim yn cael ei adnewyddu. Mae llawer o sbwriel, gwydr, chwistrelli aerosol o amgylch y pentref a’r ardaloedd chwarae – mae angen glanhau’n rheolaidd.’

**Merch 13 oed o Gaerffili**

‘Mae peth o’r offer yn y parc wedi torri ac mae sbwriel, mae angen mwy o finiau sbwriel. Dylid rhoi rhywfaint o wybodaeth am beidio taflu sbwriel a’r effaith ar yr amgylchedd.’

**Merch 10 oed o Ben-y-bont ar Ogwr**


## Pa mor dda yw mannau chwarae?


**Dywedodd 88% o blant ac arddegwyr y gallant wneud popeth, neu o leiaf rai o’r pethau y maent eisiau yn y gofodau ble byddan nhw’n chwarae neu’n cymdeithasu.**

Mae dadansoddiad o ddata ansoddol o’r arolwg hwn, ac o arolygon blaenorol, yn awgrymu darlun cymysg o ansawdd mannau chwarae yng Nghymru. Ceir dyluniadau cynhwysol, dyfeisgar mewn rhai ardaloedd, tra bo eraill yn wynebu materion fel anghydraddoldeb mynediad, tanariannu a fandaliaeth. Mae meysydd chwarae cyhoeddus yn arbennig o hanfodol ar gyfer plant mewn ardaloedd trefol a’r rheini sydd heb erddi, gan ddarparu eu prif gyfle ar gyfer chwarae ac ymarfer corff y tu allan. Ond eto, mae toriadau i gyllidebau awdurdodau lleol yn amlwg wedi arwain at ddirywiad mewn cynnal a chadw, gan adael llawer o ofodau sy’n bodoli eisoes i ddadfeilio a gydag offer ar goll. Mae’r dirywiad mewn ansawdd a mynediad i fannau chwarae yn effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol plant gan gyfrannu, o bosibl, at gynnydd mewn graddfeydd gordewdra a phroblemau iechyd meddwl yn ystod plentyndod.

Gofynnodd yr *Arolwg Bodlonrwydd Chwarae* i blant ac arddegwyr ystyried hefyd ansawdd y mannau ble maent yn chwarae neu’n cymdeithasu.


Fel yn 2022, dywedodd y mwyafrif (88%) bod y lleoedd y maen nhw’n chwarae yn dda ble gallan nhw wneud yr holl bethau, neu rai o’r pethau y maen nhw eisiau. Yn ogystal, arhosodd y gyfran o blant ac arddegwyr ddywedodd eu bod nhw ‘ddim yn dda’ neu eu bod yn ‘ofnadwy’ yn 12%. Plant anabl fynegodd yr anfodlonrwydd mwyaf (17%) gydag ansawdd gofodau chwarae, tra roedd cyfrannau uwch na’r ffigwr cyfartalog o blant hŷn ac arddegwyr (15%) hefyd yn feirniadol o’r gofodau oedd ar gael iddynt chwarae.






**Ffigwr 6: Ansawdd mannau chwarae (7,046 o ymatebion)**

Dywedodd dros 90% o blant ac arddegwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Conwy, Caerffili, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Wrecsam, Abertawe a Sir Ddinbych bod y mannau y maent yn chwarae ynddynt yn 'grêt' neu yn 'iawn'. Roedd y gyfran ddywedodd bod mannau 'ddim yn dda' neu'n 'ofnadwy' uchaf ym Mlaenau Gwent, Castell-nedd Port Talbot a Chasnewydd.




**Ffigwr 7: Ansawdd mannau chwarae yn ôl awdurdod lleol (7,056 o ymatebion)**

## Yr hyn mae plant yn ei ddweud am y mannau sydd ganddynt i chwarae

Gellir crynhoi fel a ganlyn yr hyn ddywedodd plant ac arddegwyr wrthym am yr hyn sy'n dda a beth sydd ddim cystal am y mannau sydd ganddynt i chwarae neu gymdeithasu:

### Yr hyn sy'n dda:

- Mae gan lawer o ardaloedd **fannau agored, caeau, coetiroedd a thraethau** i chwarae.
- Mynediad i **barciau, caeau pêl-droed/rygbi a pharciau sglefrfyrddio**.
- **Offer diogel gaiff ei gynnal a'i gadw** mewn rhai lleoliadau.
- Mannau i **gwrdd ffrindiau a chymdeithasu**.

### Yr hyn sydd ddim cystal:

- Mae rhai parciau'n **ddiflas neu gyda diffyg offer** (er enghraifft, dim fframiau dringo).
- **Diffyg cynnal a chadw** – sbwriel, gwydr wedi torri, strwythurau chwarae wedi eu difrodi.
- **Peryglon i ddiogelwch** – priffyrdd gerllaw, arwynebau peryglus, caeau chwarae mwdlyd.
- Diffyg **ardaloedd chwarae addas** ar gyfer plant hŷn.

# Caniatâd i chwarae

Mae rhyddid i blant chwarae yn dibynnu ar fwy na dim ond yr amser sydd ganddynt a'r mynediad sydd ganddynt i fannau chwarae addas. Mae chwarae plant yn aml yn dibynnu ar ba mor ddiogel y maent yn teimlo mewn mannau chwarae, os ydynt yn teimlo eu bod yn 'perthyn' mewn mannau cymdeithasol, y rhyddid y mae eu rhieni'n ei ganiatáu iddynt, a derbyniad chwarae plant gan y gymuned ehangach.

## Teimlo'n ddiogel

**Mae bron i 90% o blant ac arddegwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel bob amser, neu'r rhan fwyaf o'r amser pan fyddant yn chwarae neu'n cymdeithasu.**

Gofynnodd *Arolwg Bodlonrwydd Chwarae 2025* i blant ac arddegwyr pa mor ddiogel yr oeddent yn teimlo yn y mannau ble maent yn chwarae. Roedd y canlyniadau'n gyson gyda'r arolygon blaenorol a hefyd ar draws y mwyafrif o nodweddion (megis rhywedd, oed, ethnigrwydd, lleoliad). Roedd ymatebion ynghylch diogelwch yn gymharol gyson, gyda dros 85% o blant ac arddegwyr yn teimlo'n ddiogel bob amser, neu'n teimlo'n ddiogel fel arfer, pan fyddan nhw allan. Dim ond 6.5% ddywedodd nad oedden nhw fyth yn teimlo'n ddiogel, er bod hyn yn uwch na'r 4% a ganfuwyd yn 2022. Fel yr adroddwyd eisoes, mae plant anabl yn teimlo'n llawer llai diogel na'u cyfoedion, gyda dros 10% yn dweud eu bod byth yn teimlo'n ddiogel a 10% pellach yn dweud eu bod byth yn chwarae'r tu allan.

Mae'r dadansoddiad ansoddol o'r *Arolwg Bodlonrwydd Chwarae*[12] yn cefnogi ein data o ran canfod bod diogelwch yn fater pwysig dros ben. Soniodd y plant am bryderon ynghylch bwlio, defnyddio cyffuriau, aflonyddu a ffyrdd peryglus. Yng Nghasnewydd, Conwy a Blaenau Gwent yn benodol, pwysleisiodd y plant sut y mae'r materion hyn yn eu hatal rhag chwarae'n rhydd neu gael mynediad i fannau y maent yn eu mwynhau.

'Dwi ddim yn teimlo'n ddiogel bob amser. Weithiau dwi'n teimlo'n ofnus o'r oedolion yn yr ardal. Fe ges i gwt ar fy mhen-glin ar wydr. Dwi'n cadw draw o rai parciau oherwydd bod pethau wedi digwydd yn y gorffennol neu oherwydd mod i'n teimlo mewn perygl.'

**10 oed o Sir y Fflint**

'Mae wastad arddegwyr ac maen nhw'n gwneud imi beidio teimlo'n saff. Mae llawer o wydr ar lawr.'

**Merch 10 oed o Gonwy**

'Mae llawer o draffig sy'n gyrru'n gyflym i bobman a 'does dim ffordd ddiogel i gyrraedd i'r parc ar draws y briffordd brysur o dŷ fy ffrind, mae angen i hyn fod yn fwy diogel.'


**Merch 10 oed o Flaenau Gwent**

'Mae Glyn Ebwy yn fwy diogel nag ardaloedd eraill ond 'does gyda ni ddim ar gyfer arddegwyr. Felly fe fyddwn ni'n mynd i barciau chwarae ac mae pawb yn rhoi stŵr inni oherwydd eu bod nhw ar gyfer plant bach. Felly, i ble aiff yr arddegwyr?'

**Bachgen 14 oed o Flaenau Gwent**

'Cymaint o blant yn mynd ar feiciau modur dros yr ardaloedd gwyrdd a gwerthu cyffuriau ble galla' i eu gweld ac mae ganddyn nhw gŵn mawr a byth yn glanhau ar eu hôl.'

**Merch 12 oed o Flaenau Gwent**




**Ffigwr 8: Amser a dreulir yn chwarae'r tu allan a theimladau o ddiogelwch (7,214 o ymatebion)**

Mae Ffigwr 8 yn darlunio'r berthynas rhwng faint o amser y mae plant ac arddegwyr yn chwarae neu'n cymdeithasu'r tu allan a'u teimladau o fod yn ddiogel. Mae'r rheini sydd wastad yn teimlo'n ddiogel hefyd yn fwyaf tebygol o chwarae'r tu allan y mwyafrif o ddyddiau, neu ychydig ddyddiau'r wythnos. Ar y llaw arall, y rheini sydd fyth yn teimlo'n ddiogel yw hefyd y rhai sy'n lleiaf tebygol o chwarae'r tu allan y mwyafrif o ddyddiau. Mae hyn yn fwy amlwg ar gyfer merched, plant anabl, a phlant hŷn ac arddegwyr.

## Agweddau oedolion

**Mae oedolion blin yn cael eu profi fwy gan blant hŷn (18%), plant anabl (16%) a bechgyn (16%).**

Canfuwyd mewn gwaith ymchwil blaenorol bod agweddau oedolion – yn rhieni ac yn aelodau o'r gymuned ehangach – tuag at chwarae yn bwysig ar gyfer rhyddid plant i chwarae.[13]

Mewn ymateb i'r cwestiwn, Sut mae'r oedolion yn ymddwyn pan wyt ti'n chwarae neu'n cymdeithasu?, dywedodd 86% o blant ac arddegwyr bod oedolion yn grêt, neu o leiaf yn iawn gyda nhw pan oedden nhw'n chwarae'r tu allan (88% yn 2022). O'r plant ac arddegwyr a holwyd, dywedodd 14% bod rhai, neu'r holl oedolion yn anhapus bod plant yn chwarae'r tu allan (12% yn 2022) gydag ymatebwyr anabl (16%) a phlant hŷn ac arddegwyr (18%) yn dweud nad oedd oedolion yn hoffi, neu'n casáu eu bod yn chwarae'r tu allan.

Canfuwyd nad yw ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi newid yn sylweddol ers 2019 ac mae'r sylwadau'n cefnogi canfyddiadau astudiaethau eraill[14] sy'n canfod bod agweddau negyddol yn codi o ddiffyg dealltwriaeth o'r hyn yw chwarae plant, a barnau gwahanol am yr hyn ddylid ei ystyried fel ymddygiad derbyniol.

Yn ôl awdurdod lleol, plant yng Nghastell-nedd Port Talbot, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful adroddodd am y lefelau uchaf o oedolion oedd yn flin gyda nhw (dros 20%) o'i gymharu â'r lleiaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe (dan 5%).

‘Rwy’n credu bod angen i bobl hŷn beidio fod mor flin pan fydd plant yn cael hwyl, rwy’n credu ei bod hi ond yn iawn i fod yn flin os ydyn nhw’n bod yn swnllyd wrth eich tŷ chi.’

**Merch 13 oed o Ferthyr Tudful**

‘Y dynion sbwriel a dynion gweithio ar yr hewl ac maen nhw’n rhoi ofn i’r rhan fwyaf ohonom ni. Ac mae rhieni blin yn bygwth galw’r heddlu ac mae hynny’n rhoi ofn i fi.’

**Merch 10 oed o Gaerdydd**

‘Lan yn yr ardal wrth fy nhŷ, yn enwedig yn yr haf, mae oedolion yn yfed a defnyddio cyffuriau a dydw i ddim yn teimlo’n ddiogel.’

**Bachgen 13 oed o Gastell-nedd Port Talbot**

‘Dau ddrws i lawr o fy nhŷ i mae hen ddynes sydd wastad yn flin ac sydd byth yn gadael i fi a fy ffrindiau chwarae’n agos i’w thŷ ac mae’n bygwth popian ein pêl.’

**Bachgen 10 oed o Sir Ddinbych**

‘Gangiau’n hongian o amgylch, arddegwyr ar feiciau modur ac yn bod yn beryglus. Oedolion yn bloeddio os oes criw ohonom ni ar y cae yn chwarae pêl-droed. Cael ein galw’n ddrwg oherwydd bod ychydig ohonom ni jesd eisiau chwarae pêl-droed.’

**Bachgen 14 oed o Flaenau Gwent**

## Cael caniatâd i fynd allan

**Mae 74% o blant ac arddegwyr yn dweud eu bod yn cael caniatâd i chwarae neu gymdeithasu’r tu allan ar eu pen eu hunain neu gyda ffrindiau.**

Mae ymchwil[15] yn awgrymu, tra bod rhieni’n anelu i feithrin datblygiad eu plant trwy chwarae, maent yn aml yn ei chael yn anodd taro cydbwysedd rhwng yr angen am oruchwyliaeth a diogelu yn erbyn buddiannau archwilio’n annibynnol a chymryd risg. Mae pryderon rhieni'n aml ynghylch anafiadau corfforol, perygl dieithriaid ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n arwain yn aml at gyfyngu ar chwarae plant, yn enwedig y tu allan. Gall diffyg diogelwch cymunedol canfyddedig, cyfranogiad cymunedol cyfyngedig ac ofn beirniadaeth gan rieni eraill gyfyngu ymhellach ar chwarae plant gyda phryder rhieni’n cael ei drosglwyddo hefyd i’r plant eu hunain. Mae hyn yn amlwg yn ymatebion plant ac arddegwyr i nifer o gwestiynau’r arolwg sy’n amlygu’r gyfran sylweddol sydd ddim yn chwarae neu gymdeithasu’r tu allan i’w tai a’u gerddi, neu gartrefi a gerddi ffrindiau.

Pan ofynnwyd a oeddent yn cael caniatâd i chwarae neu gymdeithasu'r tu allan, fe wnaethom ganfod bod 25% ddim yn cael caniatâd i chwarae’r tu allan ar eu pen eu hunain neu gyda ffrindiau. Mae llai o ferched nac o fechgyn yn cael caniatâd i fynd allan, mae plant iau yn cael caniatâd i fynd allan lai na phlant hŷn ac felly hefyd blant anabl ac ethnig lleiafrifol. Tra bô’r gyfran o blant sydd ddim yn cael caniatâd i fynd allan wedi disgyn ers 2022 (26%), mae’r un fath â’r hyn ganfuwyd yn 2019 (25%).

Ni wnaeth data 2025 ddangos y cysylltiad a ganfuwyd yn 2022 rhwng amddifadedd a chaniatâd i chwarae, ble roedd y rheini yn yr ardaloedd mwyaf cyfoethog yn cael eu cyfyngu fwyaf. Mae’n bosibl bod y canfyddiad hwn yn ymwneud â’r cyfyngiadau COVID-19 yn 2021/22 pan gynhaliwyd yr arolwg.

Roedd *Arolwg Bodlonrwydd Chwarae 2025* yn cytuno gyda data 2022, bod y rheini sy’n byw mewn ardaloedd gwledig yn cael caniatâd i fynd allan llawer mwy (82%) na’r rheini sy’n byw mewn trefi a dinasoedd (72%). O *ddadansoddiad atchweliad lluosog*, natur wledig oedd yr unig ffactor gafodd effaith *broffwydol* gadarnhaol hefyd os oedd plant yn derbyn caniatâd i chwarae’r tu allan ar eu pen eu hunain neu gyda ffrindiau. Mae dadansoddiad atchweliad lluosog yn dadansoddi dylanwad un newidyn annibynnol ar nifer o newidynnau dibynnol eraill. Mae atchweliad lluosog yn helpu i ddarogan canlyniad (fel, os caiff plant ganiatâd i fynd allan i chwarae) yn seiliedig ar nifer o ffactorau dylanwadol (fel rhywedd, ethnigrwydd neu ble maent yn byw). Felly, mae’n galluogi darogan a rhagfynegi.

‘Fydda’ i ond yn mynd i ymarferion pêl-droed a rygbi. Er mwyn bod yn ddiogel fydda’ i ddim yn cael caniatâd i fynd allan gyda ffrindiau.’

**Bachgen 9 oed o Gastell-nedd Port Talbot**

‘Weithiau alla’ i ddim chwarae achos bod rhaid i Mam a Dad weithio felly alla’ i ddim mynd i’r parciau achos dydw i ddim yn cael mynd allan ar fy mhen fy hun.’

**9 oed o Gaerdydd**

‘Dwi’n meddwl y dylen ni gael mwy o gamerâu cctv oherwydd bod ein stad ni’n fawr i gadw llygad am ddynion drwg felly dydi mam a dad ddim yn gadael imi gerdded ar y stad ar fy mhen fy hun felly mae rhaid imi chwarae yn fy ngardd fel arfer.’

**Merch 12 oed o Wrecsam**

‘Ddim yn cael caniatâd i fynd allan heb oedolyn gan nad yw’r ardal yn ddiogel.’

**12 oed o Gasnewydd**

‘Fydd mam ddim yn gadael imi fynd allan oherwydd yr arddegwyr.’


**Bachgen 8 oed o Rondda Cynon Taf**

‘Pobl yn delio cyffuriau. Gormod o ofn chwarae’r tu allan.’

**Merch 14 oed o Gasnewydd**


‘Dydw i ddim yn cael caniatâd i chwarae’r tu allan ar fy mhen fy hun oherwydd y plant mawr sy’n hongian o gwmpas. Dydi hi ddim yn ddiogel imi.’

**Merch 8 oed o Flaenau Gwent**




**Ffigwr 9: Caniatâd i chwarae (6,784 o ymatebion)**

Roedd amrywiad mawr rhwng awdurdodau lleol. Fel yn 2022, Merthyr Tudful oedd â’r gyfran uchaf o blant oedd yn cael caniatâd i chwarae’r tu allan ar eu pen eu hunain neu gyda ffrindiau (95%), tra yn Abertawe, dywedodd 62% o’r plant a ymatebodd nad oeddent yn cael caniatâd i fynd allan.




**Ffigwr 10: Caniatâd i chwarae wedi ei raddio yn ôl awdurdod lleol (6,784 o ymatebion)**

## Cyrraedd i fannau chwarae

Gall diffyg symudedd annibynnol plant olygu eu bod yn dibynnu ar rieni neu ofalwyr eraill i'w hebrwng i fannau ble gallant chwarae, fyddai fel arall yn anhygyrch oherwydd pellter, rhwystrau fel priffyrdd a thraffig, neu bryder cyffredinol ynghylch gadael y cartref heb oedolyn. Felly, mae amser plant i chwarae'n dibynnu'n aml ar amser eu rhieni, sydd yn ei dro'n werthfawr iawn. O ganlyniad, mae rhaid i lawer o rieni sy'n dlawd o ran amser, gydbwyso eu cyfrifoldebau niferus eraill gyda chanfod amser i alluogi eu plentyn i chwarae.

> 'Alla' i ddim chware'r tu allan i ddweud y gwir oherwydd 'does neb i chwarae gyda nhw felly bydd rhaid i mam neu dad fy ngyrru ond fe fyddai hynny'n boen.'
>
> **10 oed o Sir y Fflint**

Felly mae'n bwysig, wrth ystyried y rhyddid i blant ac arddegwyr ddewis mannau chwarae, i fod â dealltwriaeth o sut y maen nhw'n teithio i'r mannau lle maen nhw'n chwarae.

O'r plant ac arddegwyr ymatebodd i'r *Arolwg Bodlonrwydd Chwarae*, dywedodd 52% eu bod yn gallu cerdded neu fynd ar feic/sgwter ar eu pen eu hunain neu gyda ffrindiau i ble maen nhw'n chwarae, tra bo 46% yn dibynnu ar oedolyn i un ai eu cerdded neu eu gyrru. Roedd y gyfran o blant ac arddegwyr oedd yn teithio'n annibynnol wedi disgyn o 55% yn 2019 i 50% yn 2022 felly eto, mae'n bosibl bod graddfa 2022 wedi ei heffeithio gan gyfyngiadau COVID-19.

Fe wnaethom ganfod patrymau tebyg iawn i 2022 yn nata 2025. Roedd plant hŷn ac arddegwyr (65%), bechgyn (55%), y rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig (58%) ac mewn ardaloedd mwy amddifad (56%) i gyd yn fwy tebygol o deithio'n annibynnol i chwarae. Plant ethnig lleiafrifol (54%), merched (52%) a phlant iau (52%) oedd fwyaf tebygol o ddibynnu ar oedolion i deithio.

Dylid cydnabod hefyd bod teithio llesol yn cael ei hyrwyddo'n eang fel ffordd syml a chynaliadwy i hyrwyddo gweithgarwch corfforol, gwella iechyd a lleihau llygredd. Ceir mwy o fanylion ar deithio llesol yn Atodiad 2.

## Yr hyn mae plant yn ei ddweud am y caniatâd y maent ei angen i chwarae

Gellir crynhoi fel a ganlyn yr hyn ddywedodd plant ac arddegwyr wrthym am yr hyn sy'n dda a ddim cystal am y caniatâd y maent ei angen i chwarae:

**Yr hyn sy'n dda:**

- Mae rhai ardaloedd yn **teimlo'n ddiogel**, gydag oedolion gerllaw neu gymdogaethau bychan ble mae pobl yn adnabod y plant.
- Presenoldeb **clybiau ieuenctid neu weithgareddau dan oruchwyliaeth**.

**Yr hyn sydd ddim cystal:**

- Bydd rhieni'n aml yn **cyfyngu ar ryddid** o ganlyniad i bryderon ynghylch diogelwch.
- Canfyddiadau ynghylch **amgylcheddau anniogel** (traffig, pobl ddieithr, defnyddio cyffuriau, gwydr wedi torri).
- Mae plant yn teimlo **eu bod yn cael eu gwylio neu eu gor-reoli**, gan arwain at rwystredigaeth.
- Canfyddiadau o **unigolion peryglus neu ymddygiad gwrthgymdeithasol** mewn rhai gofodau cyhoeddus.



# Bodlonrwydd cyffredinol

**Mae 71% o blant ac arddegwyr yn dweud bod eu cyfleoedd i chwarae'n dda, neu'n grêt.**

Mae plant yn dymuno chwarae:

- sy'n cael ei gyfarwyddo'n bersonol
- sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer archwilio a her
- sy'n meithrin cysylltiadau cymdeithasol
- sy'n cael ei gefnogi gan oedolion gofalgar
- sydd â digonedd o amser wedi ei neilltuo ar ei gyfer.

Mae darparu cyfleoedd o'r fath i chwarae'n hanfodol ar gyfer lles, datblygiad a hapusrwydd cyffredinol plant. Felly, mae'n bosibl mai'r cwestiwn pwysicaf a ofynnir yn yr *Arolwg Bodlonrwydd Chwarae* yw, Ar y cyfan, pa mor dda yw dy gyfleoedd i chwarae a chymdeithasu?. Gellir cymryd bod hyn yn adlewyrchu bodlonrwydd chwarae plant.

Yn 2025, fe wnaethom ganfod o'r 6,724 o blant wnaeth ymateb i'r cwestiwn, bod 71% yn dweud bod eu cyfleoedd i chwarae yn 'grêt' neu'n 'dda'. Roedd hyn yn gynnydd bychan (ac o ganlyniad yn ystadegol ddibwys) o 70% yn 2022 ond roedd yn dal i fod yn ostyngiad sylweddol o'r 84% a gofnodwyd yn 2019.




## Sgorau bodlonrwydd chwarae

**Mae plant ac arddegwyr sy'n dweud nad ydyn nhw'n chwarae neu'n cymdeithasu gyda'u ffrindiau y tu allan yn llai bodlon o'i gymharu â'r rheini sy'n dweud eu bod.**


Trwy drosi ymatebion yn sgôr (1 = mae'n ofnadwy i 5 = mae'n grêt) gallwn gynhyrchu 'sgôr bodlonrwydd chwarae'. Rydym wedi defnyddio hyn i archwilio'r berthynas rhwng bodlonrwydd chwarae a ffactorau perthnasol eraill. Mae'r sgorau a gofnodwyd rhwng 2022 a 2025 yn debyg iawn. Yn 2025, y 'sgôr' cyfartalog oedd 3.9 o'i gymharu â 3.88 yn 2022.

Fel y dangosir yn Ffigwr 11, canfuwyd fawr ddim gwahaniaeth mewn bodlonrwydd rhwng bechgyn a merched. Roedd mwy o wahaniaeth rhwng y rheini sy'n byw mewn ardaloedd amddifad neu lai-amddifad nag a welwyd yn 2022. Mae plant ac arddegwyr mewn ardaloedd gwledig yn dal yn fwy bodlon na'u cyfoedion mewn ardaloedd trefol er bod y lwfans yn llai. Fel yn 2022, mae plant iau yn fwy bodlon na phlant hŷn ac arddegwyr, tra bod plant ac arddegwyr anabl yn dal i fod y lleiaf bodlon o bell ffordd gyda'u cyfleoedd i chwarae.

Trwy atchweliad lluosog, fe wnaethom ymchwilio os gallai ffactorau megis rhywedd, ardal wledig, anabledd, ethnigrwydd ac amddifadedd (newidynnau annibynnol) ein helpu i ddarogan bodlonrwydd chwarae (newidyn dibynnol). Fe wnaethom ganfod mai dim ond statws amddifadedd ble mae plant yn byw oedd yn cynnig rhagfynegydd dibynadwy o fodlonrwydd chwarae.


Yn Ffigwr 11 rydym wedi cymharu sgorau bodlonrwydd yn ôl ffactorau sy'n cynrychioli'r amser, y lle a'r caniatâd i chwarae o 2022 a 2025. Mae graddfa uchel o gysondeb yn y canlyniadau hyn, sy'n golygu y gallwn fod yn fwy sicr ynghylch y canfyddiadau. Mae'r canlyniadau'n dangos bod y plant a'r arddegwyr hynny sy'n chwarae'r tu allan y rhan

fwyaf o ddyddiau, y rheini sy'n teimlo'n ddiogel a'r rheini sy'n cael caniatâd i chwarae'r tu allan yn fwy tebygol o fod yn fodlon gyda'u cyfleoedd i chwarae.




**Ffigwr 11: Sgorau bodlonrwydd chwarae (6,582 o ymatebion)**

O'r awdurdodau lleol ofynnodd am fodlonrwydd chwarae, roedd amrywiaeth eang yn y sgorau. Plant ac arddegwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot a Blaenau Gwent oedd y lleiaf bodlon gyda'u cyfleoedd i chwarae tra mai'r rheini yng Nghaerffili a Sir y Fflint oedd fwyaf bodlon.




**Ffigwr 12: Sgorau bodlonrwydd chwarae cyfartalog wedi eu graddio'n ôl awdurdod lleol (6,582 o ymatebion)**

# Casgliadau

Mae'r adroddiad 2025 hwn, sy'n seiliedig ar leisiau 7,924 o blant ac arddegwyr o bob cwr o Gymru, yn cynnig cipolwg ysgogol a chynnil i'w profiadau byw o chwarae. Mae'n cadarnhau, tra bo'r mwyafrif o blant yn gwerthfawrogi a mwynhau eu cyfleoedd i chwarae, mae gwahaniaethau sylweddol yn dal i gyfyngu ar fynediad teg i chwarae i bawb.

Mae plant yn dweud, ran amlaf o lawer, bod chwarae'n hanfodol ar gyfer eu hapusrwydd, eu datblygiad a'u bywyd cymdeithasol. Maen nhw'n ffynnu pan fydd ganddynt **amser**, **lle** a **chaniatâd** i chwarae – tair elfen gydgysylltiedig sy'n sail i brofiadau chwarae ystyrlon a boddhaus. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n dangos nad yw'r sylfeini hyn ar gael yn gyson i bob plentyn yng Nghymru.

Mae **amser i chwarae** yn dal i gael ei gyfyngu i lawer. Er bod y mwyafrif o blant yn chwarae allan yn rheolaidd, mae un o bob pedwar yn dal i ddweud nad ydyn nhw'n cael digon o amser. Yn aml, mae pwysau academaidd, gwrthdyniadau digidol ac arferion teuluol yn disodli chwarae distrwythur y tu allan. Mae plant hŷn, plant anabl a'r rheini mewn ardaloedd trefol neu lai amddifad yn adrodd am lai o amser a chyfleoedd i gymryd rhan mewn chwarae annibynnol, rheolaidd.

Pan ddaw'n fater o **le i chwarae**, mae 72% o blant yn dweud eu bod yn fodlon gyda'r ystod o fannau sydd ar gael iddynt – ond mae mynediad ac ansawdd yn amrywio'n fawr. Mae meysydd chwarae a gofodau awyr agored strwythuredig yn dal i fod yn anhepgor, yn enwedig ar gyfer plant iau, ond eto mae llawer yn dadfeilio, ddim yn gynhwysol neu'n daprau'n wael ar gyfer plant hŷn ac arddegwyr. Mae dirywiad gofodau dan do, fel clybiau ieuenctid, yn peri pryder penodol, yn enwedig yn ystod tywydd gwael ac i'r rheini sy'n chwilio am fannau diogel i gymdeithasu.

Yn aml, mae gan blant mewn ardaloedd gwledig ac amddifad fwy o fynediad i fannau awyr agored, ond mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan faterion yn cynnwys cynnal a chadw, hygyrchedd a chynhwysiant – yn enwedig i blant anabl, sy'n dal i fod y grŵp gaiff ei eithrio fwyaf o ran cyfleoedd i chwarae.

Waeth os caiff ei ganiatáu gan rieni, cymdogaethau, neu trwy deimladau o ddiogelwch, efallai mai **caniatâd i chwarae** yw'r rhwystr mwyaf sylweddol. Tra bo'r mwyafrif o blant yn adrodd eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael caniatâd i fynd allan i chwarae, mae 25% nodedig sydd ddim yn cael caniatâd i chwarae'n annibynnol. Mae pryderon ynghylch diogelwch, anghymeradwyaeth oedolion, ymddygiad gwrthgymdeithasol a pheryglon amgylcheddol yn aml yn atal plant rhag chwarae'r tu allan. Yma eto, mae plant anabl, merched a phlant ethnig lleiafrifol yn cael eu heffeithio'n anghyfartal.

Mae bodlonrwydd cyffredinol gyda chyfleoedd i chwarae wedi disgyn o 84% yn 2019 i 71% yn 2025. Mae'r tueddiad hwn ar i lawr yn rhybuddio bod angen sylw ar frys gan lunwyr polisi, awdurdodau lleol, a chymdogaethau.

Mae'r neges gyson gan blant yn glir: maen nhw eisiau mwy o amser, mannau gwell, a mwy o ryddid i chwarae.

Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn ailddatgan pwysigrwydd dal i ddefnyddio **dull seiliedig ar hawliau tuag at bolisi chwarae**, fel sydd wedi ei arloesi gan Lywodraeth Cymru. Ond eto, mae cyflawni'r hawl i chwarae yn ymarferol yn gofyn am fwy na datganiadau polisi. Mae'n gofyn am gyd-weithredu, buddsoddiad parhaol a chynhwysiant ystyrlon o leisiau plant mewn cynllunio a darpariaeth leol.

Mae Cymru chwarae-gyfeillgar yn un ble mae gan bob plentyn, waeth beth eu hoed, gallu, cefndir, neu leoliad, fynediad i fannau diogel, deniadol a phriodol i chwarae a thyfu. Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i droi'r weledigaeth honno'n realiti, ac mae'n ein hatgoffa bod gwrando ar blant yn fwy na dim ond arfer da, ond yn rheidrwydd cyfreithiol a moesol.

# Atodiad 1: Methodoleg

## Samplo

Gwnaethpwyd cais am ddata gan y 22 o awdurdodau lleol ar draws Cymru. Ni dderbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Wynedd, Powys a Sir Benfro. O'r 19 cyngor arall, nid yw data o gynghorau Torfaen, Ceredigion a Sir Gâr wedi ei gynnwys gan iddynt ddefnyddio arolygon ansafonol, ble roedd y data'n anghyson, neu ble roedd yr awdurdodau wedi cynnal ymchwil cwbl ansoddol gyda phlant ac arddegwyr.

## Glanhau data

Defnyddiodd yr awdurdodau lleol dempled yr arolwg gyda lefelau cysondeb amrywiol. Glanhawyd y data a'i gasglu'n set ddata unigol. Gan ddefnyddio'r *Arolwg Bodlonrwydd Chwarae*, cafodd pob un o'r setiau data eu halinio i greu set o newidynnau cyson. Golygodd hyn aildrefnu'r colofnau i gydweddu â'r un drefn a chreu enwau newidynnau newydd. Er sicrhau cysondeb, cafodd rhai newidynnau eu hail-godio a chrëwyd nifer o newidynnau deilliadol yn cynnwys cyfuno rhai gwerthoedd o fewn meysydd (er enghraifft grwpio oedrannau). Defnyddiwyd tablau am-edrych allanol, megis cynnyrch cronfeydd data Codau Post yr ONS, i ddynodi daearyddiaeth, megis ardaloedd cynnyrch ehangach, ac i gysylltu'r rhain gyda newidynnau economaidd-gymdeithasol megis Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD). Ail-gyfrifwyd nifer o newidynnau er mwyn galluogi gweld tueddiadau ar draws grwpiau ehangach. Cyfunwyd ardaloedd WIMD yn bedwar grŵp (cwintelau) felly mae data wedi ei adrodd yn bennaf am y 25% o ardaloedd lleiaf a mwyaf amddifad yng Nghymru.


## Maint a hyder y sampl

Cafodd cyfanswm o 7,924 o ymatebion oddi wrth blant ac arddegwyr eu cynnwys yn y set ddata derfynol. O'i gosod yng nghyd-destun poblogaeth lawn plant ac arddegwyr pump i bedair ar ddeg oed Cymru (342,822[16]), casglwyd sampl o 2.2% ac mae'n cynnig tebygolrwydd o 95% bod yr ymatebion yn adlewyrchu'n gywir agweddau'r boblogaeth gyfan.


## Proffil yr ymatebwyr

- O'r plant ac arddegwyr ymatebodd i'r arolwg, dynododd 48.7% eu bod yn ferched, 49.9% eu bod yn fechgyn a nododd 1.4% 'arall' neu nad oeddent am ddweud.
- Roedd 75% o'r ymatebwyr hyn dan 11 oed (75% yn 2022) tra bo 30% yn 11 oed neu'n hŷn (25% yn 2022).
- Wrth ateb y cwestiwn, Wyt ti'n ystyried dy hun yn berson ag anabledd?, dywedodd 6.4% ydw (5.7% yn 2022).
- Dosbarthwyd yr arolygon yn y Gymraeg a'r Saesneg ond gofynnwyd i'r plant ac arddegwyr pa iaith oedd orau ganddynt ei siarad. Roedd yn well gan 5.5% y Gymraeg (11% yn 2022), dywedodd 85% Saesneg (85% yn 2022), dywedodd 1.5% y Gymraeg a'r Saesneg ac roedd yn well gan 5% iaith arall.
- Darparwyd data ethnigrwydd gan 71% o'r ymatebwyr. Trwy gyfuno categorïau i restr pum categori syml yr ONS, fe wnaethom gofnodi'r sampl canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Gwyn | 4,968 | 87.8% |
| Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig | 225 | 4.0% |
| Grwpiau ethnig cymysg neu luosog | 214 | 3.8% |
| Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 149 | 2.6% |
| Grŵp ethnig arall | 103 | 1.8% |




**Ffigwr 13: Sampl *Arolwg Bodlonrwydd Chwarae* yn ôl awdurdod lleol (7,924 o ymatebion)**





**Ffigwr 14: Sampl *Arolwg Bodlonrwydd Chwarae* yn ôl grŵp oedran (7,564 o ymatebion)**

# Atodiad 2: Cerdyn Adroddiad 'Active Healthy Kids'


Defnyddiwyd data o'r *Arolygon Bodlonrwydd Chwarae* blaenorol i gyfrannu at gerdyn adroddiad *Active Healthy Kids Report Card for Wales*.[17,18] Mae'r cerdyn adroddiad yn offeryn eiriolaeth sy'n darparu lens ar gyfer ymddygiadau gweithgarwch corfforol a ffactorau sy'n dylanwadu ar blant ac arddegwyr yng Nghymru. Mae'r cerdyn adroddiad yn cydnabod bod chwarae egnïol, yn enwedig y tu allan, yn cyfrannu at weithgarwch corfforol cyffredinol.

## Dangosydd teithio llesol

Gellir tynnu data teithio llesol o'r ymatebion a roddodd plant ac arddegwyr yn yr *Arolwg Bodlonrwydd Chwarae.* Mae'n cynnwys hefyd sut y maent yn teithio i fannau chwarae ac i'r ysgol ac mae'n cynnwys y rheini sy'n cerdded neu'n seiclo/sgwtio ar eu pen eu hunain, gyda ffrindiau neu gydag oedolyn. Amlinellir hyn yn Ffigwr 15 a Ffigwr 16. Dangosodd y gyfran o blant ac arddegwyr sy'n teithio'n llesol i fannau chwarae gynnydd bychan o 69% yn 2022 i 70% yn 2025. Ond, roedd hyn dal yn is na'r 73% a ganfuwyd yn 2019. Fodd bynnag, parhaodd y gyfran oedd yn teithio'n llesol i'r ysgol i godi o 42% yn 2019, i 45% yn 2022, a 47% yn 2025.





**Ffigwr 15: Teithio llesol i chwarae 2022 a 2025**




**Ffigwr 16: Teithio llesol i'r ysgol 2022 a 2025 (6,668 o ymatebion)**

Cyfrifir teithio annibynnol ychydig yn wahanol, gan ganolbwyntio ar y rheini sy'n dweud eu bod yn teithio ar eu pen eu hunain neu gyda ffrindiau i fynd i fannau chwarae – yn hytrach na gydag oedolyn. Ar draws Cymru, mae 52% o blant ac arddegwyr yn teithio i fannau chwarae'n annibynnol. Yn Ffigw-r 17 fodd bynnag, gallwn weld amrediad eang yn y  gyfran o blant ac arddegwyr sy'n teithio'n annibynnol ar draws gwahanol ardaloedd.




**Ffigwr 17: Teithio annibynnol i fannau chwarae yn ôl awdurdod lleol**

# Atodiad 3: Beth sy'n dda a beth sydd ddim cystal am chwarae yn eich ardal?

Fel y nodir yn y cyflwyniad, mae'r adroddiad hwn wedi ei gefnogi gan ddadansoddiad ansoddol a gynhaliwyd gan y Dr Michaela James a'r Dr Hope Jones o Brifysgol Abertawe. Mae'r ymchwilwyr wedi dadansoddi dau gwestiwn o ddata *Arolygon Bodlonrwydd Chwarae* yr awdurdodau lleol:

- Beth sy'n dda am chwarae yn dy ardal?
- Beth sydd ddim cystal am chwarae yn dy ardal?

Dyma ddetholiad o sylwadau gan blant am beth sy'n dda a beth sydd ddim cystal am eu cyfleoedd i chwarae.

## Beth sy'n dda?

### Mannau gwyrdd ac agored

Mae nifer o blant yn mwynhau cael mynediad at barciau, caeau ac amgylcheddau naturiol sy'n ddiogel, yn hwyl ac yn agos at adref. Mae'r mannau hyn yn caniatáu iddynt chwarae a chymdeithasu.

> 'Mae llawer o goed i'w dringo a llawer o le i chwarae.'
>
> **Merch, 10 oed**

### Cyfleoedd i chwarae

Mae plant yn gwerthfawrogi mannau lle gallant chwarae'n rhydd ac yn greadigol yn arbennig, yn aml heb fawr o ymyrraeth gan oedolion, neu dim ymyrraeth o gwbl.

> 'Mae 'na LWYTH o le a chuddfan fach wedi'i gwneud o goed (cae pêl-droed a pharc hefyd!).'
>
> **Bachgen, 10 oed**

### Cyfeillgarwch a chymdeithasu

Thema gref oedd pwysigrwydd cyfeillgarwch i alluogi chwarae. Roedd plant yn gwerthfawrogi gallu cymdeithasu â ffrindiau, gan gyfeirio'n aml at guddfannau cyfrinachol, mynd ar eu beiciau a mannau lleol i gymdeithasu.

> 'Rwy'n ei hoffi oherwydd mae gen i ffrindiau ar fy stryd sy'n galw amdana'i a dydyn nhw ddim yn fy ngadael allan ac rydym yn mynd i'r cae neu i'r goedwig neu'r stryd.'
>
> **Plentyn, 10 oed**

> 'Mae 'na lawer o bobl rydyn ni'n eu nabod y gallwn ofyn iddyn nhw am help os bydd ei angen arnon ni.'
>
> **Merch, 15 oed**

### Teimlo'n ddiogel

Mewn sawl ardal, disgrifiodd y plant eu hardaloedd fel rhai diogel i chwarae ynddyn nhw, oherwydd traffig ysgafn, goleuo da neu gyfeillgarwch â chymdogion.

> 'Mae'n dda oherwydd mae'n fawr iawn ac yn dda i blant, mae'n ddiogel iawn; mae mor ddiogel fel bod fy mam a fy nhad yn ei hoffi!
>
> **Plentyn, 13 oed**

> 'Rwy'n agos at fy ffrindiau ac mae llawer o bobl sydd â chamerâu ar eu tai er diogelwch.'
>
> **Merch, 8 oed**

## Beth sydd ddim cystal?

### Diogelwch

Diogelwch oedd y mater y cyfeiriwyd ato amlaf. Fe wnaeth y plant gyfeirio at bryderon ynghylch bwlio, y defnydd o gyffuriau, baw ci, gwaith cynnal a chadw gwael a ffyrdd anniogel sy'n eu hatal rhag chwarae'n rhydd neu gael mynediad at y mannau y maent yn eu mwynhau.

'Mae llawer o bobl yn cymryd cyffuriau ym mhob man. Hyd yn oed yn y parciau.'
**Merch, 11 oed**

### Angen gwelliannau i gyfarpar presennol

Mewn sawl ardal, dywedwyd bod y cyfarpar chwarae yn hen ffasiwn, wedi torri neu ond yn addas ar gyfer plant ifanc. Roedd nifer yn galw am fuddsoddiad mewn mannau ar gyfer plant hŷn ac arddegwyr.

'Mae'r siglenni wedi rhydu'n ddrwg ac mae'n teimlo fel y byddan nhw'n torri pan fyddwch chi'n mynd yn uchel.'
**Bachgen, 9 oed**

### Diffyg cyfleoedd

Mynegodd rhai plant eu rhwystredigaeth ynghylch y diffyg pethau i'w gwneud a'r pellter teithio hir a diffyg ardaloedd dynodedig neu addas ar gyfer arddegwyr, yn ogystal â theimlo nad oedd croeso iddynt.

'Lle bynnag rydyn ni'n mynd, rydyn ni'n cael ein barnu. Dw i ddim eisiau chwarae ar siglenni a sleidiau.'
**Bachgen, 13 oed**

'Does dim byd o ddiddordeb i mi. Maen nhw i gyd yn weithgareddau chwaraeon a dwi ddim yn mwynhau chwaraeon.'
**Bachgen, 13 oed**

### Rhwystrau i gynhwysiant

Dywedodd plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) nad yw nifer o fannau a chyfleoedd yn gynhwysol. Datgelodd yr ymatebion anghydraddoldebau hefyd o ran mynediad at gyfleoedd chwarae diogel a hygyrch i blant anabl a niwrowahanol.

'Does gen i ddim diddordeb mewn chwaraeon a does dim clwb ieuenctid ar gael yn lleol ar gyfer plant AAAA.'
**Bachgen, 13 oed**

### Diffyg amser

Dywedodd rhai o'r plant hŷn fod pwysau academaidd, gwaith cartref, neu weithgareddau eraill yn gadael ychydig o amser ar gyfer chwarae yn yr awyr agored neu gymdeithasu gyda ffrindiau.

'Gwaith cartref, a blaenoriaethau eraill fel y gampfa a does gen i ddim digon o amser.'
**Merch, 15 oed**



# Yr hyn mae plant yn ei ddweud am chwarae yng Nghymru

Chwarae Cymru Play Wales

## Penawdau cenedlaethol 2025

Fe ofynnom i blant ac arddegwyr yng Nghymru ddweud wrthym beth sy'n dda a beth sydd ddim cystal am y cyfleoedd i chwarae yn eu hardal leol. Fe ddywedon nhw wrthym ba mor fodlon ydyn gyda phryd, sut a ble y gallant chwarae.



Holwyd **7,825** o blant ac arddegwyr.

Mae **5,477** o blant ac arddegwyr yn chwarae'r tu allan y rhan fwyaf o ddyddiau, neu o leiaf ychydig ddyddiau'r wythnos.

Ond, mae **37%** o blant anabl yn fwy tebygol o beidio chwarae'r tu allan fyth, neu bron byth.

> 'Does unman imi fynd achos alla' i ddim cerdded llawer ac rydw i yn fy nghadair olwyn.





Mae **5,634** o blant ac arddegwyr yn fodlon gyda'r amrediad o fannau ble gallant chwarae neu hongian o gwmpas.

> Mae LLAWER o le a llawer o ffrindiau a chuddfannau cyfrinachol.

Ond, mae **23%** o blant anabl a **15%** o blant ethnig lleiafrifol yn dweud nad ydyn nhw'n teimlo'n ddiogel pan maen nhw'n chwarae neu'n hongian o gwmpas.

Dywedodd **1,095** o blant ac arddegwyr bod oedolion yn ddrwg eu tymer oherwydd eu bod yn chwarae'r tu allan.

Mae tymer ddrwg oedolion yn cael ei brofi fwy gan y grwpiau hyn:

- **18%** plant hŷn
- **16%** plant anabl
- **16%** bechgyn



> Mae angen i bobl hŷn beidio bod mor ddrwg eu tymer pan fydd plant yn cael hwyl.

Y darlun a gyflwynwyd gan blant ac arddegwyr ar draws Cymru yw eu bod yn cael caniatâd i fynd allan, yn teimlo'n ddiogel, ac yn gallu chwarae yn y mannau ble maent am chwarae a'u bod, ar y cyfan, yn fodlon gyda'u cyfleoedd i chwarae.

Fodd bynnag, mae dal lle i wella. Mae ambell grŵp o blant ac arddegwyr yn sefyll allan yn eu hadrodd am lefel bodlonrwydd isel gyda'u cyfleoedd i chwarae. Mae'r rhain yn cynnwys plant ac arddegwyr anabl a phlant ac arddegwyr ethnig lleiafrifol.

O'i gymharu â bechgyn, mae mwy o ferched, yn enwedig rhai iau – **36%** – sydd ddim yn cael chwarae'r tu allan ar eu pennau eu hunain.



> Mae rhieni'n anesmwyth amdanom ni'n mynd allan ar ein pennau ein hunain heb oruchwyliaeth oedolyn.

www.chwarae.cymru

# Cyfeiriadau


[1] Llywodraeth Cymru (2025) *Cymru: Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

[2] Dallimore, D. (2023) *Yr Arolwg Bodlonrwydd Chwarae: canllaw i'w ddefnyddio'n lleol*, Caerdydd: Chwarae Cymru.

[3] Gleave, J. (2009) *Children's time to play: A literature review,* Llundain: National Children's Bureau ar gyfer Play England.

[4] Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae (2023) *Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae – Adroddiad Terfynol*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

[5] James, M. a Jones, H. (2025) *Big Play Survey Findings, a qualitative analysis for Play Wales*, adroddiad heb ei gyhoeddi, Prifysgol Abertawe.

[6] Aggio, D., Gardner, B., Roberts, J., Johnstone, J., Stubbs, B., Williams, G., López Sánchez, G.F. a Smith, L. (2017) Correlates of children's independent outdoor play: Cross-sectional analyses from the Millennium Cohort Study, *Prev Med Reports*, 8 (Awst), td. 10-14.

[7] Firth, B. a Powell, R. (2025) *Everything to Play For*, Llundain: Centre For Young Lives.

[8] Ibid James, M. a Jones, H. (2025).

[9] YMCA (2025) *Beyond the Brink? The state of youth funding for youth services*, Llundain: YMCA.

[10] Ibid James, M. a Jones, H. (2025).

[11] Ibid James, M. a Jones, H. (2025).

[12] Ibid James, M. a Jones, H. (2025).

[13] Wyver, S., Paul, T., Naughton, G., Little, H., Sandseter, E.B.H. a Bundy, A. (2010) Ten ways to restrict children's freedom to play: The problem of surplus safety, *Contemporary Issues in Early Childhood*, 11(3), td. 263-277.

[14] Long, A. (2017) It's not just about 'more': A research project exploring satisfaction with opportunities to play, for children in two Welsh neighbouring communities, *International Journal of Play*, 6 (1), td. 24-39.

[15] Cole-Hamilton, I. (2025) *Getting it Right for Play. The Power of Play: an evidence base*, Caeredin: Play Scotland.

[16] StatsWales Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth: 2023.

[17] Active Healthy Kids Research Working Group (2021) *The Fourth Pandemic of Childhood Inactivity in Wales. Active Healthy Kids Wales Report Card 2021*.

[18] Richards, A.B., Mackintosh, K.A., Swindell, N., Ward, M., Marchant, E., James, M., Edwards, L.C., Tyler, R., Blain, D., Wainwright, N., Nicholls, S., Mannello, M., Morgan, K., Evans, T. a Stratton, G. (2022) WALES 2021 Active Healthy Kids (AHK) Report Card: The Fourth Pandemic of Childhood Inactivity, *International Journal of Environmental Research and Public Health*, 19(13), 8138.

Chwarae Cymru
Play Wales

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

**Awdur: Dr David Dallimore**

ISBN: 978-1-914361-29-6

www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Elusen gofrestredig, rhif 1068926
© Chwarae Cymru
Hydref 2025